# Versus Arthritis

## Proffil Rôl Gwirfoddolwr

---

## Cymorth Rhwydwaith Cymunedol

**Ymrwymiad Amser:** 2 i 5 awr y mis gan gynnwys cymorth, rhwydweithio a hyfforddiant

**Cyswllt Staff:** Swyddog Rhanbarthol

**Sut y byddwch chi'n gwneud gwahaniaeth**
Hoffech chi ddefnyddio eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o fywyd gydag arthritis i helpu pobl eraill? Ydych chi'n llawn cymhelliant i rymuso pobl eraill i deimlo eu bod wedi'u cefnogi ac i fyw y bywyd o'u dewis?

Ar draws y DU, mae ein rhwydweithiau cymunedol yn chwarae rhan hanfodol o ran cefnogi pobl ag arthritis, poen cronig a chyflyrau cyhyrysgerbydol (MSK). Mae ein rhwydweithiau cymunedol ar agor i bawb ac maent yn rhoi ymdeimlad o berthyn, undod a chyfeillgarwch ac maent yn cyflenwi gwasanaethau ac yn cefnogi eu cymuned leol.

**Beth y byddwch chi'n ei wneud**

- Cefnogi'r Trefnydd Rhwydwaith Cymunedol gwirfoddol i gynnal y rhwydwaith yn esmwyth
- Hyrwyddo eich rhwydwaith a gwaith Versus Arthritis i annog amrywiaeth fwy o gyfranogwyr
- Darparu amgylchedd croesawgar a chefnogol i bawb sy'n mynychu
- Cynorthwyo â thasgau gweinyddol ar-lein
- Sicrhau bod gweithdrefnau diogelu yn cael eu dilyn

**Ble y byddwch chi'n cynnal y sesiynau**

- Sesiwn wyneb yn wyneb mewn lleoliadau cymunedol e.e. neuaddau cymunedol, llyfrgelloedd
- Sesiynau ar-lein gan ddefnyddio TEAMS neu Zoom.

**Y math o berson rydym yn chwilio amdano**

Nid oes yn rhaid i chi fod yn arbenigwr ond dylech chi fod yn angerddol, yn ddibynadwy ac yn barod i ddysgu!

- Profiad personol o arthritis neu gyflwr hirdymor arall
- Gofalgar, sensitif ac empathig tuag at bobl o bob cefndir
- Sgiliau cyfathrebu da
- Gallu roi adborth adeiladol
- Sgiliau TG da a mynediad rhyngrwyd dibynadwy
- Dibynadwy ac ymrwymedig
- Yn fodlon cwblhau hyfforddiant a gweithio fel rhan o dîm
- 18 oed neu hŷn

**Beth y byddwch chi'n ei gael**

- Hyfforddiant ac anwytho i'ch paratoi ar gyfer eich rôl
- Mynediad i hyfforddiant parhaus, adnoddau a chymorth
- Cyfleodd i gysylltu a rhwydweithio gyda gwirfoddolwyr eraill
- Datblygu a gwella eich sgiliau
- Ad-dalu treuliau rhesymol
- Cyfle i wneud gwahaniaeth i bobl ag arthritis

**Gwybodaeth Bwysig**

Mae Versus Arthritis wedi ymrwymo i gadw plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n agored i niwed yn ddiogel rhag niwed. Fel rhan o'n proses recriwtio, rydym yn dilyn ymarferion recriwtio mwy diogel ac yn cynnal y gwiriadau perthnasol i sicrhau bod ymgeiswyr yn addas i weithio gyda'r grwpiau hyn. Hefyd, bydd angen cwblhau hyfforddiant diogelu ar ddechrau eich cyfnod gwirfoddoli.

Ar gyfer y rôl hon, bydd ein gweithdrefnau recriwtio mwy diogel yn cynnwys:

- Sgwrs anffurfiol i drafod y rôl, dod i'ch adnabod chi a deall eich cymhelliant am wirfoddoli
- Dau eirda
- Ffotograff adnabod

**Barod i ymuno â ni?**

Byddem wrth ein boddau'n clywed gennych chi!

Gadewch i ni **wneud gwahaniaeth gyda'n gilydd**

VOLUNTEERS VERSUS ARTHRITIS

Diwedd y ddogfen.